

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 13 Ebrill 2015 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig.

### Presennol:

Cyng. Des Davies (*Cadeirydd*)  
Cyng. Auriol Williams  
Cyng. Eurig Lloyd  
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Dilwyn Jenkins  
Cyng. Islwyn Iago  
Cyng. Llinos Price  
Cyng. Haydn Lewis (*aelod lleol y Cyngor Sir*) (*cyrr. 8.15*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Des Davies, bawb i gyfarfod mis Ebrill. Llongyfarchodd y ddau ŵr ifanc o'r ardal, sef Llŷr Price a Rhys Griffiths, arweinyddion corau gymerodd ran yng nghystadleuaeth Corau Cymru 2015. Bu côr Rhys, Bois Bro Taf, yn fuddugol yng nghategori'r Corau Meibion a byddant yn cymryd rhan yn y rownd derfyrnol. Roedd Llŷr yn arweinydd Côr Merched Waunddyfal. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o gyfarchion i'r ddau. Aethpwyd ymlaen wedyn i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Lyn Jones, Ann Stokoe, Huw Jones.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**  
Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod cofnodion mis Mawrth yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Des Davies (cymorth ariannol i Wyl Fawr Aberteifi), Y Cyng. Islwyn Iago (cymorth ariannol i Hen Ysgol y Ferwig), Y Cyng. Eurig Lloyd (cymorth ariannol i Ysgol Gymunedol Penyparc a chymorth ariannol i Adran yr Urdd Penyparc), Y Cyng. Auriol Williams (trafodaeth ynglŷn â gwerthiant hen giosg ffôn Gwbert).  
Gadawyd yr ystafell gan yr aelodau perthnasol yn ystod y trafodaethau.
- 5. Materion yn codi:**
  - (a) Ciosg Felinwynt:** Mae Mr John Morris wedi glanhau'r ciosg a chlirio'r safle yn Felinwynt. Dywedodd y byddai'n peintio'r ciosg cyn gynted â phosib er mwyn i drigolion yr ardal symud ymlaen â'r prosiect i adnewyddu'r blwch.
  - (b) Ciosg Gwbert.** Oherwydd bod y mater wedi ei ohirio yng nghyfarfod mis Mawrth, cytunwyd trafod y mater yng nghyfarfod mis Ebrill. Derbyniwyd dau gynnig am y ciosg. Gofynnodd y Cyng Dilwyn Jenkins i'r clerc gofnodi nad oedd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth am nad oedd yn cytuno gwerthu'r ciosg. Daeth dau gynnig tan sêl i law. Cytunwyd derbyn y cynnig uwch gan Mr a Mrs John Williams, Fferm Troed-y-rhiw, Ferwig. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at y ddau gynigydd yn diolch iddynt am eu diddordeb ac i hysbysu mai cyfrifoldeb yr enillydd fydd symud y ciosg o'r safle.
  - (c) Taliad Un Llais Cymru:** Penderfynodd aelodau'r Cyngor ymaelodi ag Un Llais Cymru am y flwyddyn 2015-16.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**  
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen	Dim
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015.	Dim
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	£100.00
Cymorth ar Bopeth	£50
<i>Gofal mewn Galar</i>	I'w drafod ym mis Mai 2015
<i>Gŵyl Fawr Aberteifi</i>	£150
Theatr Gydweithredol Troedyrhiw	Dim
Ysgol Gymunedol Penyparc	I'w drafod ym mis Mai 2015
Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Mai 2015
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc	£150
Adran yr Urdd Penyparc	£150

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Cynllunio:

### Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A140859	Windyridge, Gwbert "Replacement dwelling and extension"	Wedi ei ganiatáu

## 8. Materion Ariannol.

### Biliau wedi eu talu:

Zurich (Yswiriant y Cyngor 1/4/15 – 31/3/16)	101421	£735.37
Canolfan Ieuenctid Penyparc (Hanner yswiriant am y ganolfan)	101422	£325.42
Un Llais Cymru (Aelodaeth 2015/16)	101423	£166.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mawrth 2015)	101424	£74.00
Cyflog y Clerc (Mawrth 2015)	101425	£296.96
Costau'r Clerc (Mawrth 2015)	101426	£46.84
C.Ff.I. Penyparc: Glanhau Ystafell Berkley, 5/12/14 – 5/3/15	101427	£216.00
SWALEC (Trydan Caegwyrdd, Penyparc)	101428	£23.90
SWALEC (Trydan Ystafelloedd Newid, Penyparc)	101429	£27.09

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod y biliau uchod yn cael eu talu.

### Materion ariannol eraill:

Bydd yr Archwilydd Mewnol, Mr Ken Griffiths, yn archwilio'r cyfrifon ar 24 Ebrill (wedi ei newid o'r 20 Ebrill)

Adran yr Urdd Pentref Penyparc	101430	£150.00
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymunedol Penyparc	101431	£150.00
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	101432	£100.00
Cyngor ar Bopeth	101433	£50.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101434	£150.00
Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc	101435	£150.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod y grantiau uchod yn cael eu talu.

## 9. Gohebiaeth:

1	Theatr Gydweithredol Troedyrhiw	Cais am gymorth ariannol	Penderfynwyd peidio cynnig cymorth ariannol.
2	BDO, Southampton	Dogfenni archwilio am y flwyddyn ariannol 2014-15.	Nodwyd
3	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Poster yn hysbysu'r Etholiad Cyffredinol 7 Mai 2015 (1)	Poster wedi eu harddangos ar yr hysbysfwrdd
4	PCSO Matthew Kieboom	E-bost oddi wrtho ynglŷn â grant prosiectau cymunedol.	Wedi ei ebostio i'r aelodau 2/4/15. Nodwyd.
5	Elin Jones AC	Diweddariad ar wasanaeth y bws arfordir "Y Cardi Bach"	Roedd yr aelodau yn bles bod y gwasanaeth unwaith eto yn darparu at bobl leol a thwristiaid.
6	Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf.	Gwahoddiad i ddigwyddiad "Lansio Ymgynghoriad – Rhan-berchnogaeth gyda Rhwyd Ddiogelwch" dydd Iau, 23 Ebrill 2015, am 10.30 yn Swyddfa'r Gymdeithas, Y Drenewydd a hefyd ddydd Gwener, 24 Ebrill, 2015 am 10.30 yng Ngwesty'r Parc, Aberystwyth.	Nodwyd.

## CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7	Ms Maggie Hughes, Tynewydd, Mwnt	Derbyniwyd cynnig wedi ei selio am y ciosg yn Gwbert.	Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Ms Hughes yn dweud nad oedd yn llwyddiannus gyda'r pris a gynigiwyd ganddi.
8	Cyngor Sir Ceredigion (Russell Hughes-Pickering, Pennaeth Perfformiad a Gwelliant)	Rhestr ddiwygiedig Safoni Enwau Lleoedd. Argymhelliad y tîm safoni: Penparc = Pen-parc. Y Ferwig = Ferwig.	Trafodwyd y mater a gofynnwyd i'r Clerc hysbysu'r awdurdod mai argymhelliad y Cyngor yw defnyddio "Pen-y-parc" yn hytrach na "Pen-parc".
9	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Posterï yn hysbysu'r Etholiad Cyffredinol 7 Mai 2015 (2): Datganiad o Bersonau a enwebwyd	Posterï wedi eu harddangos ar yr hysbysfwrdd

### 10. Materion Eraill:

**(a) Y Maen Mawr ger Golygfan Gwbert:** Mae Mr John Morris bellach wedi peintio'r llythrennau sydd wedi eu hysgythru ar y garreg.

### 11. Dyddiad Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor: 11 Mai, 2015 yn Ystafell Berkley am 7.30yh.

#### Cyfarfodydd y Cyngor am 2015:

1 Mehefin (F)    6 Gorffennaf (YB)

7 Medi (F)    5 Hydref (YB)    2 Tachwedd (F)    7 Rhagfyr (YB)

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig    YB = Ystafell Berkley    CB = Cyfarfod Blynnyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 13 April, 2015 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

### Present

Cllr Des Davies (*Chairman*)  
Cllr Auriol Williams  
Cllr Eurig Lloyd  
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

Cllr Dilwyn Jenkins  
Cllr Islwyn Iago  
Cllr Llinos Price  
Cllr Haydn Lewis (*Local member County Council*)  
(*arr. 8.15*)

1. **Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Des Davies, welcomed everyone to the April meeting. He congratulated two young men from the community, Llŷr Price and Rhys Griffiths, choir conductors who took part in the competition "Côr Cymru 2015". Rhys' choir, "Bois Bro Taf" were successful in the Male Voice Choir category and will be taking part in the final round. Llŷr was conducting "Côr Merched Waunddyfal". The clerk was requested to send both a letter congratulating them on their achievements
2. **Apologies for absence:** Cllrs Lyn Jones, Ann Stokoe and Huw Jones
3. **Minutes of the previous meeting.**  
It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the minutes for the March meeting are correct.
4. **Declaration of personal interests:** Cllr Des Davies (financial support for Gŵyl Fawr Aberteifi), Cllr Islwyn Iago (financial support for Hen Ysgol y Ferwig), Cllr Eurig Lloyd (financial support for Ysgol Gymunedol Penyparc and Adran yr Urdd Pentref Penyparc), Cllr Auriol Williams (discussions regarding the sale of the kiosk at Gwbert).
5. **Matters arising:**
  - (a) **Felinwynt Kiosk:** Mr John Morris has cleaned the kiosk and cleared the ground around it. He stated that he would give it a coat of paint as soon as possible in order that the people of the community can move forward with their project of utilising the kiosk for various enterprises.
  - (b) **Gwbert Kiosk:** As the matter had been postponed from the March meeting, it was agreed to discuss the matter of the sale of the kiosk at the April meeting. Cllr Dilwyn Jenkins requested that the clerk records that he did not take part in the discussion as he was not in agreement with selling the kiosk. Two sealed bids had been received. It was agreed to accept the higher bid offered by Mr and Mrs John Williams, Troed-y-rhiw Farm, Ferwig. The Clerk was asked to forward a letter of gratitude to both Mr and Mrs Williams and Ms M. Hughes for their interest and to inform the successful applicant that responsibility for removing the kiosk was theirs.
  - (c) **Membership payment to One Voice Wales:** It was agreed that the membership payment be made to One Voice Wales for the year 2015-16.
6. **Requests for financial support.**  
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen	Nil
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015.	Nil
Ceredigion Young Farmers' Clubs	£100
Citizens' Advice Bureau	£50
<i>Cruse Bereavement Care</i>	To be discussed May 2015
<i>Gŵyl Fawr Aberteifi</i>	£150
Theatr Gydweithredol Troedyrhiw	Nil
Ysgol Gymunedol Penyparc	To be discussed May 2015
Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed May 2015
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
Penypar YFC	£150
Adran yr Urdd Penyparc	£150

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Planning:

### County Council planning decisions:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>CCC decision</i>
A140859	Windyridge, Gwbert "Replacement dwelling and extension"	Planning approved.

## 8. Financial Matters.

### Bills paid:

Zurich (Council insurance 1/4/15 – 31/3/16)	101421	£735.37
Penyparc Youth Club (50% insurance for the centre)	101422	£325.42
One Voice Wales (Membership 2015/16)	101423	£166.00
HMRC: Clerk's PAYE (March 2015)	101424	£74.00
Clerk's Salary (March 2015)	101425	£296.96
Clerk's Expenses (March 2015)	101426	£46.84
Penyparc YFC: Cleaning Ystafell Berkley, 5/12/14 – 5/3/15	101427	£216.00
SWALEC (Electricity for Caegwyrdd, Penyparc)	101428	£23.90
SWALEC (Electricity for changing rooms, Penyparc)	101429	£27.09

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the above bills be paid.

### Other financial matters:

The Internal Auditor, Mr Ken Griffiths, will audit the accounts on 24 April (changed from 20 April).

Adran yr Urdd Pentref Penyparc	101430	£150.00
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymunedol Penyparc	101431	£150.00
Ceredigion Federation of YFCs	101432	£100.00
Citizens' Advice Bureau	101433	£50.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101434	£150.00
Penyparc YFC	101435	£150.00

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the above grants be paid.

## 9. Correspondence:

1	Theatr Gydweithredol Troedyrhiw	Application for financial aid.	It was agreed not to support the application.
2	BDO, Southampton	Documents received for the financial year 2014-15.	Noted.
3	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Posters advertising the General Election 7 Mai 2015 (1)	Posters displayed on the notice boards.
4	PCSO Matthew Kieboom	E-mail pertaining to the availability of grants available for community projects.	E-mailed to members on 2/4/15. Noted.
5	Elin Jones AM	Update on the coast bus service. "Y Cardi Bach"	Members were pleased that the service was now up and running for the tourist season.
6	Mid-Wales Housing	Invitation to the Consultation Launch "Shared Ownership with a Safety Net" Thursday, 23 April 2015 at 10.30 at the Association's offices, Newtown and also Friday, 24 April 2015 at 10.30 at Park Lodge Hotel, Aberystwyth.	Noted.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7	Ms Maggie Hughes, Tynewydd, Mwnt	Sealed bid received for the Gwbert telephone kiosk.	The Clerk was asked to inform Ms Hughes that her bid had been unsuccessful.
8	Ceredigion County Council (Russell Hughes-Pickering, Head of Performance and Improvement)	The revised list of standardisation of place names: Recommendation: Penparc = Pen-parc. Y Ferwig = Ferwig.	The matter was discussed and the Clerk was asked to notify the authority of the Council's recommendation: "Pen-y-parc" rather than "Pen-parc".
9	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Posters advertising the General Election 7 May 2015 (2): List of candidates' names	Posters displayed on the notice boards.

**10. Other Matters:**

**(a) The boulder at the exit of the Gwbert Viewpoint:** Mr John Morris has painted the lettering on the engraving.

**11. Date of the Annual General Meeting of the Council:** 11 May, 2015 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

**Council Meetings in 2015:**

1 June (F) 6 July (YB)

7 September (F) 5 October (YB) 2 November (F) 7 December (YB)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting